| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion** |
| **Dyddiad:** | **11 Chwefror 2020** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor** |
| **Pwrpas** | **Cytuno ar argymhelliad i'r Cyngor llawn** |
| **Awdur:** | **Dilwyn Williams – Prif Weithredwr** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |

## CEFNDIR

**1.** Ers 2012 mae yna ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol. Mae'r gofyn statudol hwnnw yn nodi mai swyddogaeth i'r Cyngor llawn yw cymeradwyo'r polisi tâl.

**2.** Wrth fabwysiadu'r polisi tâl ar gyfer 2012 / 13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynaladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn.

**3.** Yn sgîl hynny ac yn unol â threfniadau sydd wedi'u gweithredu yn y cyfamser, gofynnir i'r Pwyllgor hwn ystyried cynnwys y drafft o bolisi tâl ar gyfer 2020 / 21 a chyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 5ed o Fawrth eleni.

## PRIF SWYDDOGION

**4.** Mae un o'r ddwy swydd ar lefel Cyfarwyddwr Corfforaethol yn wag ers Hydref, 2019 gyda'r penderfyniad i beidio llenwi'r swydd honno am y tro. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol y bydd angen dod i gasgliad terfynol ynghylch llenwi'r swydd wag ai peidio maes o law.

**5.** Mae cyflogau presennol y Prif Swyddogion wedi'u seilio ar un ai chwartel isaf neu ganolrif swyddi o faint cyfatebol o fewn y Farchnad Sector Gyhoeddus Cenedlaethol, fel ag yr oedd yn ymddangos yn Ionawr 2012. Golyga hyn nad yw'r gymhariaeth hefo swyddi o faint cyfatebol yn y Farchnad Sector Gyhoeddus Cenedlaethol wedi'i gynnal fel rhan o adolygu'r Polisi Tâl Corfforaethol ers saith mlynedd bellach. Mae yna berygl felly bod cyflogau Prif Swyddogion yng Ngwynedd wedi gostwng yn is na'r chwartel isaf a'r canolrif ar gyfer swyddi cyfatebol yn y cyfamser. Awgrymwyd y llynedd y byddai'n amserol cynnal ymarferiad o'r math er mwyn ystyriaeth gan y Pwyllgor pan yn adolygu'r Polisi ar gyfer 2019/20. Fodd bynnag, yn sgîl yr hinsawdd ariannol, penderfynwyd peidio cynnal yr adolygiad. Mae'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn heriol wrth gwrs ac o ganlyniad nid oes ymarferiad wedi ei gynnal eleni chwaith. Mae hyn yn golygu, yn ei dro, fod yna berygl i gyflogau prif swyddogion y Cyngor hwn golli tir hefo cyflogau awdurdodau eraill cyfagos.

**6.** Wedi dweud hynny, nid wyf yn gyfforddus ein bod yn pennu cyflogau prif swyddogion ar sail yr hyn sy'n digwydd yn y "farchnad" yn unig gan ein bod yn gweld o rannau eraill o'r sector gyhoeddus bod hyn yn gallu arwain at gynnydd cyflog afrealistig ac hynny heb fod gwir angen. Fodd bynnag, rhaid bod yn fyw i'r hyn fyddai'n digwydd pe byddem yn colli ein harweinwyr gorau ac felly yn ystod 2020/21, rwyf yn bwriadu cynnal adolygiad o'r sefyllfa er mwyn adrodd i'r Pwyllgor hwn yn ystod y flwyddyn ar y risg yr ydym yn ei wynebu.

7. Yn 2018 penderfynodd y Cyd-Gyngor Trafod Telerau Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion a'r Cyd-Gyngor Trafod Telerau ar gyfer Prif Weithredwyr ar godiadau cyflog o 2% am y ddwy flynedd ariannol yn arwain hyd at ddiwedd 2019 / 20.

8. Mae hawl gytundebol gan y Prif Swyddogion a'r Prif Weithredwr i'r codiadau cyflog a sicrheir yn genedlaethol ac i'r pwrpas hwnnw mae'r drafft o'r polisi tâl yn datgan, fod gan '**y Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau y JNC yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y JNC a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol presennol.'** Golyga hyn bod y Cyngor yn cymeradwyo'r codiadau cyflog a ddyfernir yn genedlaethol yn sgil mabwysiadu'r polisi tâl yn flynyddol. Nid oes penderfyniad eto ar unrhyw gynnydd yn y cyflog ar gyfer 2020/21; bydd y Cyngor yn gweithredu ar y penderfyniad hwnnw (ac yn ei ôl ddyddio os oes raid i'r 1af o Ebrill 2020) pan dderbynnir cadarnhad o'r sefyllfa.

## SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG

9. Yn ystod 2018 daeth cynrychiolwyr cenedlaethol y Cyflogwyr Llywodraeth Leol a'r undebau llafur i gytundeb ar godiadau cyflog ar gyfer y gweithlu llywodraeth leol yn ehangach. Roedd y cytundeb hwnnw yn un dwy flynedd am y cyfnod 2018 – 2020. Arweiniodd hynny at gynnydd cyffredinol o 2% mewn cyflogau ar gyfer y blynyddoedd 2018/19 a 2019/20, gyda'r staff ar y graddfeydd cyflog isaf yn derbyn canrannau uwch.

10. Mae'r trafod ar gynnydd yn y cyflog ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn 2020/21 yn parhau, ac mae'n bosib na fydd cadarnhad o'r sefyllfa erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y Cyngor felly yn gweithredu ar unrhyw gytundeb cyn gynted â phosib ac yn ôl ddyddio unrhyw gynnydd i'r 1af o Ebrill 2020.

## ARGYMHELLIAD

11. Bod y Pwyllgor yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tâl drafft i'r Cyngor fel un i'w fabwysiadu ar gyfer 2020 / 21.